## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu** |
| **DYDDIAD:** | **4 Mawrth 2024** |
| **LLEOLIAD:** | **Hybrid** |
| **TEITL:** | **Adrodd ar ddefnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA)** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Er gwybodaeth** |
| **Y RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | **Ymgymryd â'i adolygiad 6 mis o ddefnydd y Cyngor o RIPA** |

**CEFNDIR:**

Daethpwyd ag adroddiad i'r Pwyllgor diwethaf ar 22 Mai 2023 (gweler adroddiad 22 Mai ar: Adroddiad RIPA - 22/05/23

**Monitro gan aelodau**

Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu sy'n gyfrifol am adolygu defnydd y Cyngor o RIPA.

Fel arfer, cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar sail 6 mis; fodd bynnag, cyflwynir yr adroddiad hwn 9 mis wedi'r adroddiad diwethaf oherwydd diffyg gweithgarwch RIPA.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

**1) Gweithgarwch RIPA**

Nid oes unrhyw weithgarwch RIPA wedi bod gan unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor yn ystod y cyfnod rhwng 22 Mai 2023 a 21 Tachwedd 2023. Cadarnhaodd Swyddogion Awdurdodi nad ydynt wedi ystyried unrhyw geisiadau RIPA yn ystod y cyfnod hwn.
Mae datganiad Blynyddol yr IPCO yn adlewyrchu hyn.

**2) Hyfforddiant**

Ar 18 Ebrill 2024, trefnwyd gweithdy hyfforddi diwrnod llawn a fydd yn cael ei gynnal gan ddarparwr allanol i Swyddogion perthnasol ar RIPA. Cynhaliwyd hyfforddiant diwethaf ar 28

Chwefror 2022 i swyddogion.

Dylai'r hyfforddiant hwn a'r sesiynau blaenorol sicrhau bod gan Swyddogion perthnasol y wybodaeth angenrheidiol i gydymffurfio â gofynion RIPA.

**3) Swyddogion Awdurdodi**

Mae'r Swyddogion Awdurdodi presennol ar gyfer Gwyliadwriaeth Gyfarwyddedig, awdurdodiadau CHIS ac awdurdodiadau nad ydynt yn RIPA yn:

Y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd;
Y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a sefydliadau; a
Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal

Y Prif Weithredwr yw'r Swyddog Awdurdodi i roi awdurdodiadau mewn perthynas â gwybodaeth gyfrinachol neu freintiedig, sy'n ymwneud â ffilmio unrhyw Aelod Etholedig, Cyfarwyddwr Corfforaethol neu Swyddog Arweiniol Corfforaethol, neu sy'n ymwneud â diogelu pobl ifanc neu bobl sy'n agored i niwed.

Y Swyddog Rheng Cymeradwy cyfredol ar gyfer Data Cyfathrebu yw:

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Eilyddion amgen (os yw Swyddog Rheng Cymeradwy uchod 1. ddim ar gael):
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a sefydliadau; a
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal

**4) Cylchlythyr IPCO**

Mae'r IPCO wedi cyhoeddi eu cylchlythyr chwarterol ar gyfer Gaeaf 2023. Mae ar gael ar wefan yr IPCO yn IPCO Winter 2023 Newsletter ac wedi'i atodi i'r adroddiad yn **Atodiad 1**.

| | | |
|---|---|---|
| | **A oes asesiad effaith integredig wedi'i gwblhau? Os na, nodwch pam** | Na |
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | ***Crynodeb:*** Darperir yr adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig ac nid yw'n cynrychioli newid mewn polisi na strategaeth.<br>**Hirdymor:**<br>**Integreiddio:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:** | |

**Argymhelliad/Argymhellion**

Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:**
Sicrhau bod y pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddefnydd y Cyngor o RIPA a gweithredu polisïau.

| | |
|---|---|
| **Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Llywodraethu a Chyfreithiol (a Swyddog Monitro) |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 04.03.2024 |
| **Acronymau:** | RIPA: Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (*Regulation of Investigatory Powers Act 2000*)<br>SRO: Uwch Swyddog Cyfrifol (*Senior Responsible Officer*)<br>CHIS: Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol (*Covert Human Intelligence Source*)<br>IPCO: *Investigatory Powers Commissioner's Office* |